

Wylfa Site Director's Report

19 May 2016


Stuart Law
Site Director



Site Director's Summary

The 100 day Outage period is over and we're now at the stage of finalising our arrangements to allow us to transition to the defueling phase. The Office of Nuclear Regulation (ONR) has conducted a readiness review of our preparations for implementation of the revised Operating Rules for defueling and our revised Emergency Scheme arrangements on site with a view to providing us with the necessary permissions by the end of May.

A tremendous amount of work has been carried out to get us to this stage and we have only a small number of activities left to complete. In addition, we need to finalise our new operating instructions for defueling and complete the sign off of all the necessary quality plans etc. that demonstrate that we are ready.



Hydrogen, Carbon Dioxide, Turbine/Transformer oils and bulk chemicals were removed from site during the 100 day cool down and post operational clean out period and some plant systems have been reconfigured to a permanent redundant state.



Welsh Affairs Committee

I attended the House of Commons, Westminster on 9 May to give evidence at the Welsh Affairs Committee hearing regarding the future of nuclear power in Wales.

Site Operations

All remaining legacy, stuck and difficult fuel has been recovered from Wylfa's primary dry store cell (DSC) two and placed into a flask for processing. A total of 26 fuel elements, 1 DSC fuel grab and a Burst Can Detection probe were recovered as part of the post-generation fuel-free verification process. This completes this work across the three primary dry store cells.

Fuel discharges on Reactor 1 are prohibited until the Post Generation Defueling Safety Case (PGDSC) is implemented and Fuelling Machine 1 has been serviced in preparation for bulk defueling.

Wylfa's active effluent dispersion line project recently commenced after many months of meticulous preparation. A twin walled polyethylene pipeline will be installed from the north end of the site to discharge active effluent at the sea bed 250m offshore. The new pipeline will be connected to the existing line by drilling a hole from seabed to land from an offshore barge. The discharges from site are reducing but this work is being done to enable the permanent shutdown of the Cold Water pumps which previously gave the required dilution.

Maentwrog

Electricity generation 2016/17 Period 1 0.0024 TWh

Although we have had the wettest winter for many years our colleagues at Maentwrog are rejoicing having clocked up their best ever year generating 79 GWhrs. The previous best was 77 GWhrs.



Wylfa

Environment, Health, Safety, Security and Quality.

Issue 4 of Wylfa's Environmental Management Plan has been published and is available bilingually at <https://magnoxsites.com/publications> and to view by hard copy at local libraries.

The site held a successful level 1 demonstration supporting the Office of Nuclear Regulation (ONR) approval of the defueling arrangements.

Excellent feedback was received from the ONR regarding reviews carried out on Licence Condition 26 (Control & Supervision of Operators) and Licence Condition 28 (Examination, Inspection, Maintenance and Testing). The reviews centred on the actions taken by site following receipt of two improvement letters.

The fire regulator also gave excellent feedback on how well the laydown areas are controlled and provided useful feedback on areas for future improvement.

Natural Resources Wales issued a warning letter stating a breach of two conditions of the Radioactive Substances Environmental permit in relation to the fan motor running in reverse reported at the 4 February SSG meeting.

On the 28 April 2016, the Civil Nuclear Constabulary left site. We thank them for all their support.

Safety statistics 26 April 2016

Days away case rate: 0.29

Total recorded incident rate: 0.73

No of days since a lost time accident: 82

Visits/key dates

OfGem visited site on 16 February and I met Rhun Ap Iorweth, AM on 29 February.

I was interviewed by Radio Cymru's Science Café presenter Adam Walton about the challenges associated with defueling the site on 3 March. The programme was aired on 29 March.

People

As of 1 April, there are 494 Magnox and 11 Agency staff on site.

Wylfa's defueling structure will comprise of 377 Magnox employees by 31 May. Support is being provided to staff by way of organisational and trade union support, an employee assistance programme and specialist outplacement advice and training for staff leaving the organisation.

Wylfa in the Community

A team of Doosan Babcock contractors spent a day at Penrhos Stanley Hospital, Holyhead to tidy up the garden as part of an annual employee volunteering campaign.

The garden was spruced up with new plants and stainless steel planters made from recycled scrap metal and new window boxes, supplied by Dawnus, were installed to brighten up the hospital's main entrance.



For more information and the latest news from Wylfa, visit:

wylfassg.org

<https://magnoxsites.com>

<https://twitter.com/magnoxsites>

<https://www.linkedin.com/company/magnox>

<https://www.flickr.com/photos/magnoxsites>

Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

19 Mai 2016

Stuart Law
Cyfarwyddwr Safle



Crynodeb y Cyfarwyddwr Safle

Mae'r cyfnod heb gynhyrchu o 100 niwrnod wedi dod i ben ac rydym wrthi'n cwblhau ein trefniadau i symud ymlaen i'r cyfnod tynnu tanwydd. Mae'r Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) wedi cynnal adolygiad i weld pa mor barod yw ein trefniadau ar gyfer dilyn y Rheolau Gweithredu diwygiedig ar gyfer tynnu tanwydd a threfniadau ein Cynllun Argyfwng ar y safle, gyda'r bwriad o ddarparu'r caniatadau angenrheidiol i ni erbyn diwedd Mai.

Cyflawnwyd gwaith aruthrol i ddod â ni at y cam hwn a dim ond nifer bach o weithgareddau sydd ar ôl i'w cwblhau. Yn ogystal â hyn, mae angen i ni gwblhau ein cyfarwyddiadau gweithredu newydd ar gyfer tynnu tanwydd a chymeradwyo'r holl gynlluniau ansawdd a'r dogfennau eraill sydd eu hangen i ddangos ein bod yn barod.



Symudwyd hydrogen, carbon deuocsid, olew tyrbinau a newidyddion a chemegion swmpus o'r safle yn ystod y cyfnod oeri o 100 niwrnod a'r cyfnod glanhau wedi i'r gweithrediadau ddod i ben, ac mae rhai systemau peiriannau wedi'u haddasu fel y byddant yn segur yn barhaol.



Y Pwyllgor Materion Cymreig

Roeddwn yn bresennol yng ngwrandawriad y Pwyllgor Materion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin, San Steffan ar 9 Mai i roi tystiolaeth ar ddyfodol pŵer niwclear yng Nghymru.

Gweithrediadau ar y safle

Mae'r holl danwydd etifeddol a thanwydd a oedd yn sownd ac yn anodd ei godi wedi cael eu hadennill o brif gell storio sych 2 ar safle Wylfa a'u rhoi mewn fflasg i'w prosesu. Adenillwyd 26 o ffyn tanwydd, un grafanc tanwydd o gell storio sych a chwiliedydd caniau toredig yn ystod y broses gwirio ar ôl tynnu danwydd a gorffen cynhyrchu. O ganlyniad i hyn, mae'r gwaith ar y tair prif gell storio sych wedi'i gwblhau.

Gwaherddir gollwng tanwydd yn Adweithydd 1 nes bydd yr Achos Diogelwch ar gyfer Tynnu Tanwydd yn y Cyfnod Ôl-gynhyrchu (PGDSC) wedi'i roi ar waith a'r gwaith cynnal a chadw ar Beiriant Tanwydd 1 wedi'i gwblhau cyn tynnu llwythi o danwydd .

Mae prosiect piblinell gwasgaru elifion actif Wylfa wedi dechrau'n ddiweddar ar ôl misoedd lawer o waith paratoi manwl. Bydd piblinell polyethylen â wal ddwbl yn cael ei gosod o ben gogleddol y safle i ollwng elifion actif ar lefel gwely'r môr 250m o'r lan. Bydd y biblinell newydd yn cael ei chysylltu â'r biblinell bresennol drwy ddrilio twll o wely'r môr i'r tir o fad ar y môr. Mae'r gollyngiadau o'r safle'n lleihau ond bydd y gwaith hwn yn ein galluogi i gau'r pypiau dŵr oer a oedd gynt yn gwanedu'r elifion pan oedd angen.

Maentwrog

Cynhyrchu trydan yn 2016/17 Cyfnod 1 0.0024 TWh

Er i ni gael y gaeaf gwlypaf ers blyneddau lawer, mae ein cydweithwyr ym Maentwrog yn dathlu ar ôl eu blwyddyn orau erioed yn cynhyrchu 79 GW awr. Y gorau cyn hynny oedd 77 GW awr.



Wylfa

Yr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch Pobl ac Eiddo ac Ansawdd.

Mae rhifyn 4 o Gynllun Rheoli Amgylcheddol Wylfa wedi'i gyhoeddi ac mae ar gael yn ddwyieithog yn <https://magnoxsites.com/publications> ac ar ffurf copi caled mewn llyfrgelloedd lleol.

Cynhaliwyd arddangosiad lefel 1 llwyddiannus ar y safle er mwyn cael cymeradwyaeth gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) i'r trefniadau ar gyfer tynnu tanwydd.

Cafwyd adborth rhagorol gan yr ONR ar adolygiadau o Amod Trwydded 26 (Rheoli a Goruchwylio Gweithredwyr) ac Amod Trwydded 28 (Archwilio, Arolygu, Cynnal a Chadw a Phrofi). Roedd yr adolygiadau'n canolbwyntio ar y camau a gymerwyd ar y safle ar ôl cael dau lythyr ar gyfer gwella.

Roedd y rheoleiddiwr tân wedi rhoi adborth rhagorol hefyd ar y rheolaeth dda ar y manau gosod i lawr a rhoddodd adborth buddiol ar feysydd i'w gwella yn y dyfodol.

Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru lythyr rhybudd a oedd yn datgan bod dau amod o'r Drwydded Amgylcheddol ar gyfer Sylweddau Ymbelydrol wedi'u torri mewn perthynas â motor ffan a oedd yn rhedeg o chwith, y rhoddwyd gwybod amdano yng nghyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ar 4 Chwefror.

Ar 28 Ebrill 2016, ymadawodd y Gwnstabiliaeth Niwclear Sifil â'r safle. Rydym yn diolch iddynt am bob cymorth.

Ystadegau diogelwch 26 Ebrill 2016

Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd: 0.29

Cyfradd yr holl achosion a gofnodwyd: 0.73

Nifer y diwrnodau ers cael damwain colli amser: 82

Ymweliadau/dyddiadau allweddol

Ymwelodd OfGem â'r safle ar 16 Chwefror a chyfarfûm â Rhun ap Iorwerth AC ar 29 Chwefror.

Cefais fy nghyd-weld ar 3 Mawrth gan gyflwynydd y rhaglen Science Café ar Radio Wales, Adam Walton am yr heriau sy'n gysylltiedig â thynnu tanwydd ar y safle. Darlledwyd y rhaglen ar 29 Mawrth.

Pobl

Ar 1 Ebrill, roedd 494 o staff Magnox ac 11 o staff asiantaeth.

Bydd strwythur Wylfa ar gyfer tynnu tanwydd yn cynnwys 377 o weithwyr Magnox erbyn 31 Mai.

Darperir cymorth i staff gan y sefydliad ac undebau llafar, drwy raglen gymorth i gyflogaion a chynghor a hyfforddiant arbenigol i staff sy'n gadael y sefydliad i'w helpu i ddod o hyd i waith arall.

Wylfa yn y Gymuned

Roedd tîm o gontractwyr Doosan Babcock wedi treulio diwrnod yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caerdybi yn tacluso'r ardd, yn rhan o ymgyrch wirfoddoli flynyddol ar gyfer gweithwyr.

Tacluswyd yr ardd, plannwyd planhigion newydd a gosodwyd cynwysyddion dur di-staen a wnaed o fetel sgrap wedi'i ailgylchu a blychau newydd yn y ffenestri, a gyflenwyd gan Dawnus, i fywiogi prif fynedfa'r ysbyty.



I gael rhagor o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o Wylfa, ewch i:

wylfassg.org

<https://magnoxsites.com>

<https://twitter.com/magnoxsites>

<https://www.linkedin.com/company/magnox>

<https://www.flickr.com/photos/magnoxsites>